| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **29 Hydref 2013** |
| **Aelod/ Swyddog Arweiniol:** | **Cynghorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol Addysg** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg** |
| **Teitl:** | **Darpariaeth yn Seiliedig ar Ffydd** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi gwybod i Aelodau'r Cabinet am ganfyddiadau'r ymgynghoriad ffurfiol ar ddyfodol Ysgol y Bendigaid Edward Jones ac Ysgol y Santes Ffraid.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Bydd gofyn i'r Cabinet wneud penderfyniad i roi cymeradwyaeth i fwrw ymlaen i gam nesaf yr ymgynghoriad i greu ysgol newydd i wasanaethu Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones ac Ysgol y Santes Ffraid.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Yr argymhellion yw:-

(i) Nodi canfyddiadau'r ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer cau Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones ac Ysgol y Santes Ffraid ac agoriad yr ysgol newydd;

(ii) Cadarnhau'r ymrwymiad tuag at weithio mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Esgobaethol yr Eglwys Gatholig a'r Eglwys yng Nghymru i gynnig ysgol newydd yn seiliedig ar ffydd;

(iii) Cytuno i ddatblygu cynnig i alluogi ymgynghoriad ffurfiol ar adeiladu ysgol newydd yn seiliedig ar ffydd i ddisodli darpariaeth bresennol Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones ac Ysgol y Santes Ffraid.

## 4. Manylion yr Adroddiad Ysgol y Bendigaid Edward Jones ac Ysgol y Santes Ffraid.

4.1 Mae cyrff Esgobaethol yr Eglwys Gatholig a'r Eglwys yng Nghymru, mewn partneriaeth â'r Cyngor wedi cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig i gau Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones ac Ysgol y Santes Ffraid ar 31 Awst 2014 a sefydlu ysgol ffydd newydd ar y cyd ar y safleoedd presennol ar 1 Medi 2014. Digwyddodd yr ymgynghoriad ffurfiol rhwng 3 Mehefin a 22 Gorffennaf 2013. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys ystod o

gyfarfodydd ar gyfer budd-ddeiliaid a holiadur i gael barn plant, pobl ifanc a rhieni. Derbyniom 307 o lythyrau, 48 e-bost, 389 o ffurflenni ymateb cyffredinol a 489 o ffurflenni ymateb gan blant a phobl ifanc.

Casgliadau'r Ymgynghoriad Ffurfiol

4.2 O'r 307 o lythyrau a dderbyniwyd, roedd 269 gan rieni a thrigolion ardal y Rhyl sy'n pryderu ynglŷn â lleoliad yr ysgol newydd. O ran y negeseuon e-bost, roedd y mwyafrif o'r rhai a dderbyniwyd gan rieni a thrigolion oedd â chyswllt agosach ag Ysgol y Santes Ffraid. O'r 48 e-bost a dderbyniwyd, roedd 34 yn gwbl negyddol am y cynnig presennol gydag 19 yn awgrymu buddsoddi yn y drefn bresennol. Yn yr ymatebion hyn, mynegodd y mwyafrif llethol bryderon dros yr ymagwedd ddau gam o weithredu fel ysgol sengl dros ddau safle cyn cytuno i symud i ysgol newydd. Yn benodol, mynegwyd y farn fod prif fendithion y cynnig cyffredinol yn ymwneud â'r ail gam ac nad oedd y cynigion yn amlinellu bendithion clir o safbwynt addysgu a dysgu yn ystod y cam cyntaf.

4.3 Y ffurflenni Ymateb dderbyniodd yr ymateb mwyaf oll. O'r 389 o ymatebion a dderbyniwyd i ffurflenni cyffredinol, roedd 91% yn erbyn y cynnig. O'r rhai a atebodd y cwestiwn ynglŷn ag a fyddent yn anfon eu plentyn i'r ysgol newydd dau safle:

- Dywedodd 65.5% nad oeddent yn siŵr;
- Dywedodd 13.8% y byddent;
- Dywedodd 20.7% na fyddent.

4.4 Derbyniom 489 o ymatebion gan blant a phobl ifanc. Mewn ymateb i'r cwestiwn “Sut wyt ti'n teimlo am wneud Ysgol y Santes Ffraid ac Ysgol y Bendigaid Edward Jones yn 1 ysgol mewn 2 ran?” gofynnwyd i ddisgyblion roi crynodeb o'u barn a'u teimladau. Roedd y dadansoddiad o'r sylwadau hyn yn cynnwys y pwyntiau canlynol a fynegwyd o fewn eu hymateb cyffredinol:

- Roedd 331 yn erbyn y cynnig
- Roedd 79 o blaid y cynnig
- Nid oedd 48 o blaid nac yn erbyn y cynnig / yn ansicr
- Dywedodd 37 y byddai'n anodd / amhosibl cael dau safle

4.5 Wedi i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, mae'r hyrwyddwyr wedi ystyried yr holl sylwadau a dderbyniwyd. Roedd y broses hon yn cynnwys ystyried rhinweddau bwrw ymlaen gyda'r cynnig yn ofalus yn erbyn ystyried cynnig arall i ymateb i'r weledigaeth tymor hir o gael ysgol newydd ffydd a rennir.

4.6 Mae'r hyrwyddwyr hefyd yn pryderu ynglŷn â: a yw'n dal yn bosibl cyflawni'r bwriad i weithredu; yr effaith y gallai unrhyw oedi ei gael ar gynaladwyedd tymor hir a chanolig y ddwy ysgol, yn enwedig o ran arweinyddiaeth a rheoli; ac a ellir cyflawni amserlen fyrrach ar gyfer gweithredu gweledigaeth gyffredinol y prosiect drwy symud ymlaen i'r ail gam – adeiladu ysgol newydd.

4.7 Yr hyn o bryd nid oes Pennaeth parhaol yn y naill ysgol a'r llall. Gadawodd Pennaeth Ysgol y Bendigaid Edward Jones am swydd arall ddechrau 2013 a gadawodd Pennaeth Ysgol y Santes Ffraid fis Gorffennaf 2013. Mae hyn yn golygu mai Penaethiaid Dros Dro sydd yn y ddwy ysgol. Gallai'r amserlenni a

ragwelir ar gyfer gweithredu Cam 1 olygu y bydd y ddwy ysgol yn gweithredu gyda Phenaethiaid Dros Dro tan fis Medi 2014 neu'n fwy realistig tan fis Medi 2015 cyn y penodir Pennaeth parhaol ar ôl creu ysgol newydd.

4.8 Er bod y canlyniadau perfformiad dros dro yn 2013 ar gyfer Lefel 2 (TGAU) o Ysgol y Bendigaid Edward Jones wedi dangos gwelliannau, mae pryderon fod y canlyniadau salach yn Ysgol y Santes Ffraid dros y tair blynedd diwethaf wedi dechrau ymddangos fel tuedd yn hytrach na rhywbeth dros dro. Mae perfformiad ar Lefel 2 (TGAU), er ei fod yr uchaf yn y Sir wedi dirywio am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae perfformiad Lefel A yn Ysgol y Santes Ffraid wedi syrthio o fod y perfformiwr gorau ar raddau A* i C yn 2010 i'r trydydd safle o chwech o fewn y Sir. Er ei fod yn dal yn berfformiwr gorau ar gyfer disgyblion yn cyflawni graddau A* i A, ar gyfer y disgyblion hynny sy'n cyflawni gradd A*, ei berfformiad yw'r isaf o'r 6 ysgol ac mae'n is na chyfartaledd Sir Ddinbych a Chymru. Yn amlwg, mae angen i'r Gwasanaethau Addysg weithio'n agos iawn gyda'r ddwy ysgol i weithredu'r gefnogaeth sydd angen cyn cyflwyno unrhyw newidiadau strwythurol i'r ysgol.

4.9 At ei gilydd, mae'r hyrwyddwyr wedi ystyried a oedd cyflawni'r cam cyntaf (gweithredu fel un ysgol ar ddau safle), yn hanfodol i gyflawni gweledigaeth ehangach y prosiect, (gweithredu fel un ysgol ar un safle). Yn bennaf, gellid ystyried fod y risgiau posibl yn drech na'r bendithion a oedd i bob pwrpas yn ymwneud â threfniadaeth a rheolaeth yn yr ysgolion. Y farn sy'n amlygu ei hun yw na fyddai prif nod y prosiect, un ysgol ar un safle yn cael ei pheryglu'n sylweddol drwy ddiwygio'r ymagwedd. Yn wir, mae'n bosibl y gellid sicrhau bendithion drwy fynd ymlaen yn gynt i Gam 2, ac os ceir y gefnogaeth angenrheidiol, bydd llai o newidiadau yn y cyfamser, gan roi rhagor o sefydlogrwydd a dim ond un newid mawr yn hytrach na dau newid, un ar ôl y llall.

<u>Y ffordd ymlaen</u>

4.10 Er mwyn symud ymlaen byddai'r Awdurdodau Esgobaethol, mewn partneriaeth â'r Cyngor, yn ceisio datblygu cynnig ar gyfer ysgol ar un safle. Mae'r farn gychwynnol, nad yw'n gynaliadwy i'r ddwy ysgol barhau ar wahân dros y tymor hir, yn dal yn gywir. Hefyd, mae'r holl hyrwyddwyr yn bendant o'r farn nad yw buddsoddi yn y drefn bresennol yn unig yn cynnig gwerth am arian. Felly, mae'n bwysig ar hyn o bryd i bob hyrwyddwr ategu'r safbwynt hwn. O safbwynt Sir Ddinbych, rydym yn dal i ystyried yr angen i gynnal presenoldeb ysgol uwchradd ffyrdd yn flaenoriaeth.

4.11 Mewn trafodaethau gyda'r Awdurdodau Esgobaethol, mae'n amlwg fod angen eglurder ynglŷn â beth yw addysg ffydd yn Sir Ddinbych. Ar hyn o bryd, daw Ysgol y Bendigaid Edward Jones dan awdurdod Esgobaeth Gatholig Wrecsam ac mae'n cynnig Addysg Gatholig gan gynnwys derbyn Archwiliadau Adran 50 sy'n adrodd ar addysg grefyddol, cydaddoli, addysg ysbrydol, foesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant ac ethos yr ysgol. Ar hyn o bryd mae Ysgol y Santes Ffraid wedi'i dynodi'n ysgol sy'n Gatholig o ran ei chymeriad crefyddol Fodd bynnag, mae'r ysgol dan reolaeth Ymddiriedolaeth y Santes Ffraid ac nid yw wedi'i chydnabod gan Awdurdod yr Esgobaeth Gatholig ac nid

yw'n derbyn Archwiliad Adran 50. Nid yw dynodi cymeriad crefyddol yn pennu a yw ysgol yn ysgol yr Eglwys Gatholig ai peidio yn ôl cyfraith ganonaidd.

4.12 Yn ogystal, byddai ehangu maint ysgolion presennol yn golygu goblygiadau ar gyfer cyfeiriad strategol cyffredinol darparu addysg uwchradd yn Sir Ddinbych. Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi *"Fel arfer, ni ddylid bod angen darparu lleoedd ychwanegol mewn ysgolion os oes gan ysgolion eraill o'r un math leoedd gwag o fewn pellter rhesymol".* Dan senario o'r fath, mae'n anodd datblygu dadl strategol ar gyfer cynnal y ddwy ysgol ac ehangu Ysgol y Santes Ffraid heb ystyried yr effaith negyddol bosibl y gallai hyn ei gael ar Ysgol y Bendigaid Edward Jones ac Ysgol Uwchradd Dinbych.

4.13 Mae hefyd yn bwysig ystyried y goblygiadau ehangach posibl a allai ddeillio o unrhyw ymagwedd ddiwygiedig tuag at amcanion cyffredinol y prosiect (h.y. darparu ysgol newydd ar un safle yn lle dwy ysgol bresennol mewn cyflwr gwael) ar brosiectau eraill o fewn y Rhaglen Foderneiddio Addysg. Gallai unrhyw gynnydd yng nghostau'r prosiect hwn olygu bod angen dynodi gostyngiad cysylltiedig o ran graddfa i unrhyw brosiectau eraill a gefnogir gan Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ac unrhyw brosiectau eraill posibl a ddynodwyd i gael eu hariannu'n lleol gan Sir Ddinbych fel rhan o'r Cynllun Corfforaethol. Gallai goblygiadau hefyd fod i hyn ar gyfer adolygiadau yn y dyfodol o ysgolion cynradd i ddiwallu'r galw cynyddol yn enwedig yng Ngogledd y Sir.

4.14 Byddai'r trafodaethau'n canolbwyntio i ddechrau ar gadarnhau ystod oed, maint a lleoliad bwriedig yr ysgol newydd. Bydd y trafodaethau hyn hefyd yn cynnig ystyriaeth lawn o'r opsiynau o ran y modd y byddai'r galw am addysg ffydd oed cynradd yn cyfateb â'r ddarpariaeth Uwchradd.

4.15 Byddai hefyd angen cyflwyno Achos Amlinellol Strategol (AAS) i Lywodraeth Cymru ar gyfer yr ysgol newydd i alluogi'r Cyngor i sicrhau cymeradwyaeth "mewn egwyddor" ar gyfer ariannu'r ysgol newydd. Pwrpas yr AAS fydd dangos, i Lywodraeth Cymru fel partner ariannu Ysgolion yr 21ain Ganrif, fod gwedd strategol glir i'r cynnig, o ran y modd y bydd buddsoddiad yn pellhau nodau ac amcanion y sefydliad a rhesymeg glir dros wneud y buddsoddiad o ran yr achos dros newid. Bydd angen i'r AAS ystyried yr holl opsiynau, yn amrywio o "wneud cyn lleied â phosibl" h.y. cynnal y sefyllfa bresennol a'i gadael i ddirywio; "y ffordd ymlaen a ffafrir" h.y. yr opsiwn y tybir yw'r gorau sydd ar gael a "dewis(iadau) eraill credadwy" h.y. ymagwedd fwy ac / neu lai uchelgeisiol a gwahanol. Bydd felly rhaid i'r AAS ddangos pam y bydd y ffordd ymlaen a ffafrir yn sicrhau'r newidiadau gofynnol i gynnig darpariaeth gynaliadwy ar gyfer addysg ffydd uwchradd drwy grynhoi buddsoddiad ar un safle a byddai'n debyg o gostio llai na lefel y buddsoddiad sydd angen i uwchraddio'r ddau safle o safbwynt cyfalaf yn y tymor byr ac o safbwynt refeniw dros y tymor hir.

4.16 Ar ôl dod i gytundeb ar y trafodaethau a amlinellir ym mharagraff 4.14, bydd angen paratoi a chyflwyno'r AAS i Lywodraeth Cymru er mwyn iddynt ei ystyried. Rhagwelir y bydd hyn yn digwydd yn ystod Gwanwyn 2014. Pe bai Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r AAS, byddai hynny'n caniatáu rhyddhau

llythyr grant ar gyfer yr “Amlen ariannu” a amcangyfrifir ar gyfer y prosiect. Byddai unrhyw ddyfarniad o’r fath yn amodol ar ddatblygu’r achos amlinellol a’r achos busnes llawn ymhellach. Rhagwelir y byddai hwn yn cael ei ddatblygu cyn cyhoeddi unrhyw gynigion ymgynghori ymhellach.

4.17 Ar ôl cwblhau’r gwaith hwn, byddai’r Cyngor, mewn partneriaeth gyda’r Awdurdodau Esgobaethol yn gallu ystyried a ddylid dechrau’r ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig a ffafrir ar gyfer yr ysgol newydd. Rhagwelir y byddai’r ymgynghoriad hwn yn digwydd yn ystod Haf 2014. Byddai’r ymagwedd ddiwygiedig hon yn caniatáu’r ymgynghoriad hwn i ddigwydd 12 mis yn gynt nac y rhagwelwyd i ddechrau. Felly, yn amodol ar gadarnhau ffynonellau ariannol, gallai’r ymagwedd ddiwygiedig arwain at ddarparu’r adeilad ysgol newydd o fewn cyfnod byrrach, efallai erbyn mis Medi 2018.

4.18 Cefnogwyd yr ymagwedd hon gan y ddau Awdurdod Esgobaethol.

4.19 Yn ystod y cyfnod dros dro hwn, a chyn agor ysgol newydd, bydd angen sicrhau y gellir cynnig cefnogaeth lawn i sicrhau sefydlogrwydd Ysgol y Bendigaid Edward Jones ac Ysgol y Santes Ffraid. Bydd hyn yn cynnwys cynnig cymorth ac arweiniad priodol mewn partneriaeth ag Esgobaeth Wrecsam ac Ymddiriedolaeth y Santes Ffraid. Mae’n bwysig nodi, er na fyddai gan Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru Llanelwy ran uniongyrchol yn rheolaeth y ddwy ysgol yn ystod y cyfnod hwn, byddai disgwyl iddynt gyflawni swyddogaeth arwyddocaol wrth gynllunio ar gyfer yr ysgol newydd.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae’r cynnig yn cefnogi'r flaenoriaeth o “Wella perfformiad mewn addysg ac ansawdd ein hadeiladau ysgol” ac wedi’i hamlygu fel ffrwd waith fel a ganlyn:

“Byddwn yn parhau i adolygu darpariaeth ysgol ar draws y Sir i sicrhau ein bod ni’n darparu’r nifer cywir o leoedd mewn ysgolion, a’u bod o’r math cywir, ac yn y lleoliad cywir.”

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Os caiff yr argymhelliad ei gymeradwyo bydd angen cyflawni gwaith ymarferoldeb ar y safleoedd posibl ac yna ar y safle a ffafrir. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan staff Cyllid ac Asedau. Bydd cost y gwaith hwn yn cael ei dalu o fewn y dyraniadau presennol ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif a Moderneiddio Addysg o fewn Rhaglen Gyfalaf y Cynor.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i’r adroddiad.

7.1 Roedd yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar y cynnig yn awgrymu mai bach iawn fyddai’r effaith o safbwynt cam cyntaf y cynnig. Gellid ystyried fod datblygu darpariaeth ffydd ar y cyd yn hyrwyddo mwy o gynhwysiad ac yn cynnig gwell dewis addysgol (addysg Uwchradd Anglicanaidd) na ddarparwyd

o'r blaen yn Sir Ddinbych. Bydd angen datblygu Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb diwygiedig fel rhan o'r cynnig diwygiedig.

## 8. Pa ymgynghori a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Cafwyd ymgynghori llawn gyda'r holl fudd-ddeiliaid a rhoddir crynodeb o ganfyddiadau'r cyfnod Ymgynghori Ffurfiol ym mhrif gorff yr adroddiad.

Cefnogir y cynigion yn yr adroddiad gan y ddwy Esgobaeth. Mae Esgobaeth Wrecsam yn siomedig iawn fod Ysgol y Santes Ffraid yn gwrthod teithio gyda ni mewn perthynas â'r cynigion am ysgol ffydd ar y cyd yn Sir Ddinbych. Ar ôl nodi'r siom sylweddol honno, mae Esgobaeth Wrecsam yn cefnogi symud yn syth i Gam 2, ond dim ond os ceir ymrwymiad llawn i:

- Cynyddu NOR yr ysgol fwriedig a rennir
- Sicrhau consensws ar y lleoliad a ffafrir
- Ystyried opsiynau Cynradd ac Ôl-16 yn llawn; a
- Dealltwriaeth glir o strategaeth yr ALl ar gyfer Ysgol y Santes Ffraid, ac yn sicr ni all fod yn un sy'n tanseilio datblygiad a sefydlu ysgol ffydd a rennir newydd yn y pen draw

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Ni chredir fod cost yr ymgynghoriad ffurfiol yn sylweddol a dylid ei reoli o fewn yr adnoddau presennol. Gallai'r canlyniad arwain yn y pen draw at fuddsoddiad cyfalaf sylweddol gan y cyngor fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif sydd wedi'i gynnwys yn y Cynllun Corfforaethol. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn darparu gwybodaeth i'r achos busnes manwl a fydd yn mynd drwy broses gymeradwyo'r cyngor ar gyfer pob gwariant cyfalaf.

## 10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae posibilrwydd cryf y gallai'r cynnig arwain at gyhoeddusrwydd negyddol i'r Cyngor a sylwadau cyhoeddus negyddol.

I leihau'r risg hon, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau cyfathrebu clir gyda'r holl fudd-ddeiliaid.

## 11 Pŵer i wneud y Penderfyniad

Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
Fframwaith Bolisi Moderneiddio Addysg (cymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Ionawr 2009)